

# Deall y
# Bil Tybaco a Fêps

@ashwalescymru | ash.wales

ash wales cymru
action on smoking and health

# Y Bil Tybaco a Fêps: Newid Mawr i Gymru Fach

Y Bil Tybaco a Fêps 2024 fydd un o'r mentrau iechyd y cyhoedd mwyaf dylanwadol mewn cenhedlaeth. Ei nod yw diogelu pobl ifanc, lleihau'r defnydd o dybaco, a chreu cymunedau iachach ledled y DU. Dyma beth mae'r bil yn ei gynnwys a beth fydd yn ei olygu i Gymru:

## Beth sydd yn y bil?


Mae'r bil hwn yn cyflwyno cyfres o fesurau i gyfyngu ar argaeledd ac apêl cynhyrchion tybaco a fepio, yn enwedig i bobl ifanc. Dyma grynodeb o'r prif gamau gweithredu:

### Creu cenhedlaeth ddi-fwg.

Nod y bil yw creu'r "genhedlaeth ddi-fwg" gyntaf trwy ei gwneud hi'n anghyfreithlon i unrhyw un sydd wedi cael ei eni ar 1 Ionawr 2009, neu wedi hynny, brynu cynhyrchion tybaco. Mae hyn yn golygu na fydd plant sy'n troi'n 15 oed eleni, neu'n iau, byth yn gallu prynu tybaco yn gyfreithlon. Ond fydd hyn ddim yn newid unrhyw beth i'r rhai sydd eisoes yn ysmygu'n gyfreithlon.



### Rheolau llymach i bobl ifanc sy'n fepio



Nod y bil yw lleihau apêl fepio i bobl ifanc trwy gyflwyno rheolau llymach ar flasau, deunydd pecynnu, a hysbysebu. Bydd y rheolau hyn yn berthnasol i bob math o fêps, gan gynnwys fêps heb nicotin, yn ogystal â chynhyrchion nicotin eraill fel pyrsiau nicotin.

### Stopio'r bobl sy'n gwerthu i rai dan oed

Byddai swyddogion Safonau Masnach yn gallu rhoi dirwyon gwerth £200 ar unwaith i bwy bynnag sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco a fepio i rai dan oed yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn rhoi ffordd gyflymach i dimau fynd i'r afael â'r rhai sy'n gwerthu'n anghyfreithlon i bobl dan oed.




# Ehangu cosbau



Bydd dirwyon cosb benodedig yn cwmpasu ystod eang o droseddau, yn cryfhau gorfodaeth, ac yn sicrhau bod rheolau'n cael eu dilyn ar draws y bwrdd.

# Cyfyngiadau cryfach ar werthu fêps i rai dan 18 oed



Bydd y bil yn cyfyngu ar werthu fêps sy'n cynnwys nicotin a hebddo i unrhyw un dan 18 oed. Bydd cynhyrchion nicotin, fel pyrsiau, hefyd yn cael eu cyfyngu yn yr un modd, gan helpu i atal pobl ifanc rhag cael gafael ar gynhyrchion a allai fod yn gaethiwus.

# Gwahardd peiriannau gwerthu fêps a chynhyrchion tybaco'r geg

Bydd y bil yn gwahardd peiriannau gwerthu fêps a chynhyrchion tybaco'r geg, a fydd yn lleihau mynediad pobl ifanc at y cynhyrchion hyn.

# Mannau di-fêp a di-fwg yng Nghymru




Bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i ehangu'r mannau di-fwg presennol i gynnwys cynhyrchion fepio a thybaco a gynhesir hefyd. Gallai hyn olygu mwy o fannau di-fêp mewn ardaloedd cyhoeddus ledled Cymru.

# Cynllun trwyddedu manwerthwyr yng Nghymru



Er mwyn gwerthu tybaco, cynhyrchion ysmygu llysieuol, papurau sigaréts, fêps, neu gynhyrchion nicotin, bydd angen trwydded ar fanwerthwyr yng Nghymru. Nod y cynllun trwyddedu manwerthwyr yw ffrwyno'r gwerthiant o gynhyrchion anghyfreithlon, cefnogi busnesau cyfrifol, a'i gwneud hi'n haws monitro ble mae'r cynhyrchion hyn yn cael eu gwerthu.

# Cyfyngu ar hysbysebu a noddi





Bydd hi'n anoddach hysbysebu a noddi ystod ehangach o gynhyrchion, gan gynnwys fêps a chynhyrchion nicotin eraill. Mae hyn yn golygu llai o farchnata wedi'i anelu at bobl ifanc ac ymagwedd fwy cyfrifol at weledd cynnyrch.

# Pam mae hyn yn bwysig i Gymru?

Mae'r Bil Tybaco a Fêps yn gam pwysig tuag at ddiogelu pobl ifanc a chymunedau ledled Cymru rhag effeithiau niweidiol tybaco a chynhyrchion nicotin anrheoledig. Trwy gyfyngu ar fynediad at y cynhyrchion hyn, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, mae'r bil yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru o greu Cymru ddi-fwg erbyn 2030.

# Sut gallwch chi gefnogi'r bil?



## Lledaenu'r gair


Rhannwch yr wybodaeth hon gyda ffrindiau, teulu a'ch cymuned i helpu pawb i ddeall pwysigrwydd y newidiadau hyn



## Rhowch wybod am unrhyw werthu anghyfreithlon

Helpwch Safonau Masnach drwy roi gwybod am unrhyw werthu anghyfreithlon (tybaco neu fêps) a welwch yn eich cymuned. Ewch i No Ifs, No Butts ar noifs-nobutts.co.uk i adrodd yn ddienw.

## Bod yn wybodus



Dilynwch @ashwalescymru ar y cyfryngau cymdeithasol neu ewch i ash.wales i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y bil ac awgrymiadau ar sut i helpu i greu dyfodol di-fwg i Gymru. Gyda'n gilydd, gallwn wneud Cymru'n lle mwy diogel ac iachach i bawb.



**Gyda'n gilydd, gallwn wneud Cymru'n lle mwy diogel ac iachach i bawb**